OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 441 (Cy.46)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*27 Chwefror 2009*
Yn dod i rym - -	*9 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Cymru) 2009; mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 9 Mawrth 2009.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") o ran ardal yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw ddaliad lle y cedwir neu y bwriedir cadw un neu ragor o heidiau o frwyliaid;

ystyr "haid" ("*flock*") yw'r holl ieir o'r un statws iechyd â'i gilydd a gedwir yn yr un fangre neu yn yr un caeadle ac sy'n ffurfio un uned epidemiolegol ac, yn achos ieir dan do, yn cynnwys pob aderyn sy'n rhannu'r un gofod awyr;

ystyr "haid o frwyliaid" ("*broiler flock*") yw haid a gedwir i gynhyrchu cig i'w fwyta gan bobl;

ystyr "ieir" ("*chickens*") yw adar o'r rhywogaeth *Gallus gallus*;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*") o ran unrhyw ddaliad yw'r person sydd â gofal y daliad hwnnw.

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yr awdurdod cymwys

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion —

(a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran targed Cymunedol i leihau nifer achosion *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn brwyliaid ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1091/2005(**2**); a

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y gofynion ar gyfer defnyddio dulliau rheoli penodol yn y fframwaith o raglenni cenedlaethol i reoli salmonela mewn dofednod(**3**).

Hysbysu am heidiau o frwyliaid

4.—(1) Rhaid i feddiannydd y daliad lle y cedwir un neu ragor o heidiau o frwyliaid hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth ym mharagraff (4) o'r erthygl hon—

(a) cyn pen tri mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym; neu

(b) yn achos daliad a sefydlir ar ôl y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, cyn pen tri mis ar ôl sefydlu'r daliad.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid i'r wybodaeth honno neu unrhyw ychwanegiad ati a hynny o fewn tri mis ar ôl gwneud y newid neu'r ychwanegiad.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw feddiannydd sydd wedi hysbysu Gweinidogion Cymru am yr wybodaeth honno o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(4) Dyma'r wybodaeth y mae'n rhaid ei hysbysu —

(a) cyfeiriad a Rhif ffôn y daliad;

(b) enw, cyfeiriad a Rhif ffôn y meddiannydd a'r person sydd biau pob haid ar y daliad;

(c) nifer yr heidiau ar y daliad.

Samplu

5.—(1) Rhaid i'r meddiannydd samplu yn unol â phwyntiau 1 a 2 o'r Atodiad i Reoliad (EC) Rhif 646/2007 a rhaid iddo anfon samplau i labordy cymeradwy yn unol â phwynt 3.1 o'r Atodiad hwnnw (ac at ddibenion y pwynt hwnnw mae "express post" yn cynnwys post dosbarth cyntaf).

(2) O ran pob sampl rhaid i'r meddiannydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn—

(a) enw'r meddiannydd;

(b) cyfeiriad y daliad;

(c) teip y samplau;

(ch) y dyddiad pryd y cymerwyd y samplau;

(d) dull adnabod yr haid, pan fo rhagor nag un haid ar y daliad;

(dd) y dyddiad pryd y symudodd yr haid i'r daliad;

(e) oed yr haid.

Cofnodion samplau

6.—(1) Rhaid i'r meddiannydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cymryd sampl, gofnodi—

(**2**) OJ Rhif L151, 13.6.2007, t.21 fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 584/2008 (OJ Rhif L162, 21.6.2008, t.3).
(**3**) OJ Rhif L212, 2.8.2006, t. 3.